



TGAU

3010N10-1



Z22-3010N10-1

DYDD IAU, 26 MAI 2022 – PRYNHAWN

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r beirdd yn cyfeirio at fynd allan i'r awyr agored.

Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg a/neu'n wahanol.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
 - Pa fath o ddarlun o'r awyr agored mae'r ddau fardd yn ei ddisgrifio i ni?
 - Ydy'r ddau fardd yn sôn am fyd natur mewn ffyrdd gwahanol?
 - Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40]

“Walkers’ Wood”

Bore hydrefol hyfryd oedd hi a Betws-y-coed bron yn wag o ymwelwyr. Lliwiau gwych ar y coed, dim acenion main i'w clywed ar y llwybr – oedd, roedd hi'n foment farddonlyd. Ond yna, dyma'r bychan yn holi a dyma weld bod y fusutors wedi gwneud llanast o'r lle mewn mwy nag un ffordd. Dyna'r drwg efo'r diwydiant ymwelwyr – maen nhw'n dod yma gan ddyheu am baradwys ac yn mynd o'ma gan adael y lle'n stomp.

*'Oes 'na enw ar y coed 'ma, Dad?
 – I mi gael dweud y stori fawr wrth Taid.'*
*'Coed Llugwy ydi'r enw arnynt, was,
 Ond Walkers' Wood sydd yn y Betws Guide.'*

*'Pam fod y dail ar hyd y ddaear, Dad?
 Pam fod eu lliw run fath â crisps yn awr?'*
*'Mae popty'r hydref wedi'u rhostio, was,
 A'u taenu'n wledd ar hyd y llawr.'*

*'Ble ddaeth hon, y ddeilen felen, Dad,
 A dannedd mân ar hyd ei hymyl hi?'*
*'Mae'i chworydd ar y gollen acw, was,
 Sy'n rhannu ei gofidiau gyda'r lli.'*

'A hon, run lliw â cheiniog newydd, Dad?'
'Mae twll ym mhws y ffawydd, beryg iawn.'
'A'r rhain, fel darnau o jig-sô 'ta, Dad?'
'Y dderwen acw ydi'r llun yn llawn.'

*'Oddi ar pa goeden y daeth nacw, Dad?
 Mae'n wyrdd a glas, mae'n sgleinio yn y mwd.'*
*'Paced o Walkers' Crisps 'di hwnna, was,
 Ar ôl y rhai fu'n crwydro Walkers' Wood.'*

Myrddin ap Dafydd

Fy Ngardd

Mae gen i ardd o flodau
sy'n lliwgar yn yr haf,
a'r coed yn drwm a gwyrdd gan ddail
a'r haul yn t'wynnu'n braf.

Bydd dail y coed yn disgyn
yn felyn, brown a choch,
pan ddaw hen wynt yr hydref
i chwipio ar fy *moch.

Rhyw ddiwrnod yn y gaeaf,
a'r eira ar y coed,
daw blodyn bach a'i ben yn wyn
i dyfu wrth fy nhroed.

A phan ddaw'r gwanwyn heibio
daw blodau tlws, *di-ri',
a dail bach *melfed ar y coed
i lenwi ngardd fach i.

Lis Jones

*moch – boch, ochr yr wyneb *di-ri' – gormod i'w cyfrif *melfed – defnydd llyfn

DIWEDD Y PAPUR